

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro, PD Care
Limited**

27 Awst 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	11
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	14
6.	Y Camau Nesaf.....	15
	Atodiad A.....	16

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yn Neintyddfa PD Care Ltd yn 31 Kenmare Mews, Caerdydd, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 27 Awst 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Deintyddfa PD Care Limited yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerdydd a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae Deintyddfa PD Care Ltd yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaeth deintyddol y GIG yn bennaf a rhywfaint o wasanaethau deintyddol preifat.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd, un nyrs, ac un cyfarwyddwr/derbynydd ar gyfer y practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol.

4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut mae Deintyddfa PD Care Limited yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion yn holiaduron AGIC. Fe'n hysbyswyd gan yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ddatblygu system ar gyfer casglu safbwyntiau'r cleifion yn rheolaidd fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi mewn modd diogel i gleifion. Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus. Gwnaethom argymhell gwelliannau i'w gwneud i'r system archwilio offer dadebru a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achosion brys er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwnaethom hefyd argymhell bod y practis yn cynnal archwiliadau pelydr-X er mwyn sicrhau ansawdd y delweddau a'u bod yn gosod arwyddion rhybuddio am ymbelydredd yn y manau rheoledig. Roeddem o'r farn bod safon y gwaith o gadw cofnodion cleifion yn briodol.

Roedd y practis wedi sefydlu amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion, ond gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau i'r polisiâu. O arsylwi ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm.

Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys cynnal archwiliadau ac adolygiadau gan gymheiriaid. Gwnaethom hefyd argymhell y dylai'r practis ffurfioli trefniadau i bob aelod o'r staff gael arfarniadau, gan gynnwys y prif ddeintydd, a dylid cadw cofnod o hyn.

Roeddem o'r farn bod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Mae mynediad i'r practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn ar y cyfan.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion yn holiaduron AGIC. Fe'n hysbyswyd gan yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ddatblygu system ar gyfer casglu safbwyntiau'r cleifion yn rheolaidd fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael casglu barn cleifion ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 19 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Ar y cyfan, roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi o ran cael eu gweld gan y deintyddion. Ymhlith sylwadau'r cleifion (a gyflwynir yma gyda chaniatâd y rheini a wnaeth gwblhau holiaduron AGIC) roedd:

"Mae staff y practis bob amser yn gymwynasgar iawn. Maent yn gallu cael apwyntiad addas i fy amserlen bob amser ac yn esbonio pa driniaeth sydd ei hangen. Rydw i'n fodlon dros ben ar y gwasanaeth rwy'n ei dderbyn."

"Rydw i'n fodlon iawn ar y practis hwn. Maent yn ymdrechu i ddarparu ar fy nghyfer pan fo hynny'n ofynnol. Cyfathrebu ardderchog o ran negeseuon atgoffa am archwiliadau ac apwyntiadau."

"Mae'r deintydd bob amser yn rhoi amser i mi ac yn rhoi digon o fanylion ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei wneud. Dydw i byth yn teimlo mod i'n cael fy mrysio. Mae'n esbonio i fy mhlant bob amser ac yn siarad yn uniongyrchol, ac mae hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Hapus ym mhob ffordd!"

"Mae'r staff i gyd bob amser yn gymwynasgar ac yn hawdd mynd atynt ..."

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn gwybod sut i gael gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwnaethom gadarnhau bod rhif cyswllt mewn

argyfwng ar neges peiriant ateb y practis ac wedi'i arddangos y tu allan i'r practis.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, ac roedd hyn yn galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag mewn argyfwng. Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn y dderbynfa a oedd yn nodi gwybodaeth am apwyntiadau ac am dalu. Nid oedd gan y practis wefan, ond roedd y manylion cyswllt sylfaenol ar gael trwy wefan y bwrdd iechyd.

Gwelsom fod gwybodaeth dda am hybu iechyd yn cael ei ddarparu ar gyfer cleifion trwy arddangos posteri a lluniau, a thrwy ddangos DVDau addysg ar y sgrin deledu yn y man aros yn ymwneud â sut gall cleifion wella iechyd y geg. Dywedwyd wrthym fod hybu iechyd yn cael ei deilwra i blant yn ystod gwyliau'r ysgol, ac mae hyn yn arfer nodedig. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn y practis yn cael eu cefnogi i fod yn gyfrifol am eu hiechyd eu hunain.

Roedd blwch awgrymiadau yn y practis a phapurau gwag i gleifion ysgrifennu eu hadborth arnynt, ond nid oedd dull cynhwysfawr o geisio safbwyntiau'r cleifion yn rheolaidd, megis cynnal holiaduron cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu system gynhwysfawr ar gyfer cael barn cleifion yn rheolaidd, megis holiaduron cleifion, er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Pan wnaethom ofyn am y broses gwyno, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn. Gwelsom fod y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos ym man aros y cleifion.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi mewn modd diogel i gleifion. Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus. Gwnaethom argymhell gwelliannau i'w gwneud i'r system archwilio offer dadebru a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achosion brys er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwnaethom hefyd argymhell bod y practis yn cynnal archwiliadau pelydr-X er mwyn sicrhau ansawdd y delweddau a'u bod yn gosod arwyddion rhybuddio am ymbelydredd yn y manau rheoledig. Roeddem o'r farn bod safon y gwaith o gadw cofnodion cleifion yn briodol.

Cyfleusterau Clinigol

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol yr ystafell driniaeth yn y practis a gweld ei bod yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Roedd yr ystafell driniaeth yn lân ac yn daclus.

Gwelsom dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal er mwyn gwirio bod y dyfeisiadau trydanol bach a ddefnyddir yn y practis yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio. Gwnaethom hefyd edrych ar wiriadau a gynhaliwyd ar y peiriant sy'n darparu aer cywasgedig i'r ystafelloedd triniaeth (cywasgydd), a chanfod ei fod wedi cael ei wasanaethu. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i chofnodi bod gwiriadau dyddiol/rheolaidd yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cofnodi gwiriadau rheolaidd o'r peiriant cywasgu (yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr).

Dadheintio Offer

Roedd un ystafell benodol fach yn y practis ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Nid oedd y broses/llif o lanhau offer yn ddelfrydol, ond dangoswyd cynlluniau i ni o'r gwelliannau i'w gwneud i gynllun yr ystafell ddadheintio. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod prosesau addas wedi'u sefydlu i atal cleifion rhag croes-heintio. Roedd system ar waith hefyd i sicrhau bod offer deintyddol yn cael eu defnyddio o fewn y cyfnod storio a argymhellir.

Gwelsom fod llyfrau cofnodi wedi'u cwblhau ar gyfer profi a chynnal a chadw offer glanhau bob dydd, er mwyn helpu i sicrhau y byddai offer deintyddol yn gallu cael eu glanhau'n effeithiol.

Roedd sinc golchi dwylo penodol ar gael i helpu i reoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod gan y staff gofnodion unigol o hyfforddiant ar ddadheintio. Roedd y practis yn cynnal archwiliad rheoli heintiau.

Gwaredu gwastraff

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu yn briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff cyfredol ar waith.

Offer radiograffeg (pelydr-X)

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd y dogfennau perthnasol ar gael, gan gynnwys dogfennau ynglŷn ag archwiliadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi. Gwelsom fod y deintydd wedi cynnal hyfforddiant addas ar ymbelydredd ïoneiddio. Er bod delweddau pelydr-X yn cael eu graddio o ran ansawdd, gwelsom nad oedd archwiliadau'n cael eu cynnal ar gyfer yr offer radiograffig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gynnal archwiliadau ar gyfer yr offer radiograffig yn rheolaidd.

Gwnaethom sylwi hefyd nad oedd arwyddion rhybuddio am amlygiad i ymbelydredd i nodi'r manau rheoledig wedi'u harddangos. Yn benodol, nid oedd un ar gael ar y drws i'r ystafell driniaeth. Mae Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999 yn nodi y dylai fod digon o arwyddion addas yn cael eu harddangos yn rhybuddio am ymbelydredd yn y manau rheoledig/dan oruchwyliaeth, ac y dylid disgrifio'r manau rheoledig yn y rheolau lleol. Cytunodd y practis i gywiro hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod arwyddion addas sy'n rhybuddio am ymbelydredd yn eu lle.

Meddyginiaeth ac offer meddygol mewn argyfwng

Roedd cyfarpar dadebru a meddyginiaeth frys ar gael i'r staff pe bai argyfwng claf (llewygu) yn digwydd yn y practis. Roedd y practis wedi sefydlu polisi dadebru a oedd yn nodi'r weithdrefn i'r staff ei dilyn, a chafodd ei ddiweddarau'n ddiweddar. Gwelsom fod yr offer dadebru a'r meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achosion brys o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, roedd y padiau ar y diffibriliwr a ddefnyddir mewn argyfwng wedi dod i ben. Dangoswyd siart i ni a oedd yn cynnwys dyddiadau

dod i ben y meddyginiaethau, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth y cynhelir archwiliadau rheolaidd ar gyfer y meddyginiaethau a'r offer dadebru, gan nad oedd hyn yn cael ei gofnodi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau y cynhelir archwiliadau rheolaidd (wythnosol) ar gyfer yr holl offer dadebru a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achosion brys a'u bod yn cael eu cofnodi, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Mae'n rhaid cael padiau diffibriliwr newydd yn lle'r rhai sydd wedi dod i ben.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn y practis wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a bod swyddog cymorth cyntaf penodedig. Gwnaethom sylwi bod cyfnod hyfforddiant y deintydd yn dod i ben ym mis Awst 2015, ond dangoswyd dystiolaeth i ni ei fod yn bwriadu mynychu cwrs ym mis Medi 2015. Gwnaethom argymhell y practis i sicrhau nad yw cyfnod yr hyfforddiant dadebru'n dod i ben yn y dyfodol, gan fod hyn yn bwysig o ran helpu i sicrhau eu bod yn gallu ymateb yn briodol mewn argyfwng meddygol.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o bum cofnod claf ar gyfer y deintydd. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod safon y gwaith o gadw cofnodion yn briodol.

Gwnaethom gynghori'r deintydd i sicrhau bod gwybodaeth am sgrinio canser y geg yn cael ei hesbonio i gleifion (gan gynnwys y perygl o gael canser y geg) a'i chofnodi yn nodiadau'r cleifion, yn rhan o arfer da.

Dywedwyd wrthym fod pob claf sydd angen triniaeth yn cael cynllun triniaeth. Oherwydd y diffyg lle yn y practis i storio, anfonwyd cynlluniau triniaeth wedi'u cwblhau bob wythnos i gyfleuster storio diogel, felly nid oeddem yn gallu gweld y rhain yn ystod yr arolygiad.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd y practis wedi sefydlu amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion, ond gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau i'r polisiâu. O arsylwi ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm.

Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys cynnal archwiliadau ac adolygiadau gan gymheiriaid. Gwnaethom hefyd argymhell y dylai'r practis ffurfioli trefniadau i bob aelod o'r staff gael arfarniadau, gan gynnwys y prif ddeintydd, a dylid cadw cofnod o hyn.

Y prif ddeintydd a chyfarwyddwr y practis yw perchnogion annibynnol y practis. Mae'r adeilad yn rhan o gyfadeilad canolfan iechyd, a chaiff ei brydlesu gan bartneriaid y practis cyffredinol sy'n berchnogion ar y cyfadeilad.

Cyfarwyddwr y practis oedd yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg mewn ffordd effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm.

Gwelsom fod y practis wedi sefydlu amrywiaeth o bolisiâu, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol, ac roedd system addas i sicrhau bod y polisiâu hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod y staff yn ymwybodol ohonynt. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dogfen ar gael a oedd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac roedd angen diweddarau'r polisi chwythu'r chwiban i gynnwys y trefniadau er mwyn i staff gysylltu â sefydliadau annibynnol. Mae hyn yn eithriadol o bwysig oherwydd y nifer fach o staff sydd yn y practis, oherwydd gall staff deimlo'n anghyfforddus wrth fynegi pryderon mewn amgylchedd grŵp bach. Gwnaethom gynghori'r practis hefyd i sicrhau bod yr holl bolisiâu'n cael eu teilwra'n briodol ar gyfer eu gweithredu yn y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis lunio dogfen/polisi sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Dylid diweddarau'r polisi chwythu'r chwiban i gynnwys manylion y trefniadau cysylltu â sefydliadau annibynnol ar gyfer y staff.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn siarad am unrhyw faterion bob dydd, a chynhaliwyd cyfarfodydd practis ffurfiol tua unwaith bob dau fis. Gwelsom

nodiadau o gyfarfodydd diweddar, ond gwnaethom gynghori'r practis i gofnodi mwy o fanylion ynglŷn â thrafodaethau a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt, er mwyn gallu cyfeirio atynt yn ddiweddarach.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer cynnal arfarniadau yn y practis, a dywedwyd wrthym fod y deintydd wedi cynnal arfarniad ar gyfer y nyrs, ond nid oedd hyn wedi'i gofnodi. Nid oedd unrhyw drefniant i'r deintydd gael arfarniad, ac rydym wedi argymhell y dylai'r practis roi sylw i hyn. Mae arfarniadau'n bwysig er mwyn sicrhau cymhwysedd staff ac i nodi unrhyw anghenion hyfforddi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis wneud trefniadau mwy ffurfiol i bob aelod o'r staff gael arfarniadau, gan gynnwys y prif ddeintydd, a dylid cadw cofnod o hyn.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod newydd o'r staff wedi cael hyfforddiant sefydlu. Gwelsom dystiolaeth o'r hyfforddiant sefydlu a gwblhaodd y nyrs, ond nid oedd hyn wedi'i gofnodi ar gyfer y staff asiantaeth, a gwnaethom gynghori'r practis i gofnodi hyfforddiant sefydlu'r staff asiantaeth yn y dyfodol. Dywedwyd wrthym fod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio pan nad yw'r nyrs ar gael, a bod cyfarwyddwr y practis yn gofyn am dystiolaeth o'u hyfforddiant ac am dystysgrifau er mwyn sicrhau bod y staff yn gymwys.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau llywodraethu clinigol yn y practis. Gwelsom mai ychydig iawn o archwiliadau oedd yn cael eu cynnal, ac nid oedd unrhyw drefniadau ffurfiol i gynnal adolygiadau gan gymheiriaid er mwyn helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. Mae hyn yn eithriadol o bwysig gan fod y deintydd a'r nyrs yn gweithio ar eu pennau eu hunain, ac nid oedd ganddynt y fantais o allu cydweithio â gweithwyr proffesiynol deintyddol eraill.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys cynnal archwiliadau ac adolygiadau gan gymheiriaid.

Gwelsom enghreifftiau o ddatblygiad proffesiynol parhaus personol (hyfforddiant) a gwblhawyd gan staff yn y practis, a oedd yn dangos bod staff wedi cael cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Gwelsom hefyd fod staff wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar mewn diogelu plant ac oedolion.

Gwelsom fod y deintydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat ac roedd tystysgrif gyfredol wedi'i harddangos yn y practis.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan y deintydd dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd â dyddiad o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r

rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Dywedwyd wrthym y gwnaethpwyd cais am dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i diweddaru. Gofynnwyd am dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i diweddaru ar gyfer y nyrs hefyd, er nad yw hyn yn orfodol i staff y practis.

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y cofnodion damweiniau oedd wedi'u cwblhau wedi'u tynnu o'r llyfr damweiniau er mwyn gwarchod cyfrinachedd gwybodaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid tynnu cofnodion damweiniau sydd wedi'u cwblhau i gyd o'r llyfr damweiniau er mwyn gwarchod cyfrinachedd gwybodaeth y staff a'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis drefniadau i gynnig cymorth iechyd galwedigaethol drwy'r bwrdd iechyd. Gwelsom gofnodion i ddangos bod yr holl staff clinigol wedi cael brechiadau priodol i'w gwarchod rhag firsau a gludir yn y gwaed. Gwnaethom gynghori'r practis hefyd i sicrhau bod archwiliadau ychwanegol yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw staff clinigol newydd o ran hepatitis B, hepatitis C a HIV, yn unol â'r canllawiau i'r GIG yn ymwneud â chliriadau iechyd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gwnaethom edrych ar sut yr ymdriniwyd â chwynion gan gleifion yn y practis, ac roeddem o'r farn bod trefniadau addas ar waith ar gyfer eu cofnodi ac ar gyfer ymateb iddynt. Gwelsom fod gohebiaeth am gwynion yn cael ei chadw gyda'i gilydd mewn ffeil bapur. Dywedwyd wrthym nad oedd cwynion ar lafar na chwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi, a gwnaethom gynghori'r practis i gofnodi'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi ac yn derbyn sylw.

Gwelsom fod y broses gwyno yn cydymffurfio â'r trefniadau yn y weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion y GIG a adwaenir fel 'Gweithio i Wella' a rheoliadau deintyddiaeth breifat. Roedd y polisi yn nodi rhestr o sefydliadau perthnasol i'r cleifion gysylltu â nhw pe byddai ganddynt gŵyn, gan gynnwys AGIC, y bwrdd iechyd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a'r cyngor iechyd cymuned.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Mae mynediad i'r practis ar y cyfan yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Mae'r practis wedi'i leoli mewn ardal breswyl yng Nghaerdydd, mewn cyfadeilad canolfan iechyd. Mae dwy ystafell driniaeth yn y practis, ond ar adeg yr arolygiad, dim ond un o'r ystafelloedd oedd yn cael ei defnyddio. Mae nifer gyfyngedig o leoedd parcio penodedig a lleoedd parcio i bobl anabl y tu allan i'r practis.

Mae mynediad i'r practis yn addas ar y cyfan i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn, er bod diffyg lle yn y dderbynfa/man aros, a gall hyn achosi peth anhawster o ran symud cadeiriau olwyn mwy.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis i'w weld wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r practis yn fach o ran maint, ac mae dwy ystafell driniaeth, derbynfa/man aros, ystafell ddadheintio fach, cwpwrdd storio, a thoiled neillryw i'r cleifion/staff. Roedd pob man i'w weld yn lân, yn daclus, ac wedi'i oleuo'n ddigonol drwyddi draw.

Roedd arwydd y tu allan i'r practis yn nodi'r oriau agor, y rhif cyswllt mewn argyfwng, ac enw a chymwysterau'r deintydd. Roedd rhestr brisiau ar gyfer triniaethau – i gleifion y GIG a chleifion preifat – wedi'i harddangos yn y man aros.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi'u harchwilio'n briodol. Nid oedd archwiliad manwl o systemau eraill ar gyfer amddiffyn tân yn rhan o'r arolygiad hwn; fodd bynnag, cyfrifoldeb y practis yw sicrhau bod mesurau a systemau addas ar waith i amddiffyn staff a chleifion mewn tân.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel a bod copi wrth gefn yn cael ei gadw'n briodol.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran y gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Neintyddfa PD Care Limited yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis:

Deintyddfa PD Care Limited

Dyddiad yr arolygiad:

27 Awst 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf				
7	Dylai'r practis ddatblygu system gynhwysfawr ar gyfer cael barn cleifion yn rheolaidd, megis holiaduron cleifion, er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. [Safonau Iechyd a Gofal 6.3]	Templed arolwg wedi'i lunio a'i gyflwyno i gleifion. Staff wedi cael eu hysbysu o'r arolwg yn ystod cyfarfod staff.	Cyfarwyddwr y Practis	1 wythnos
Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal				
8	Dylid cofnodi gwiriadau rheolaidd o'r peiriant cywasgu (yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr). [Safonau Iechyd a Gofal 2.9]	Amserlen wedi'i llunio i hwyluso cydymffurfiaid ticio blwch.	Deintydd	1 wythnos
9	Dylai'r practis gynnal archwiliadau ar gyfer yr	Deintydd i gynnal archwiliadau ar gyfer yr offer	Deintydd	Tri mis

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	offer radiograffig yn rheolaidd. [Safonau Iechyd a Gofal 2.9; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddiad Meddygol) 2000]	radiograffig yn rheolaidd.		
9	Dylai'r practis sicrhau bod arwyddion addas sy'n rhybuddio am ymbelydredd yn eu lle. [Safonau Iechyd a Gofal 2.1; Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999 – 18 (1) (a) a (ii)]	Arwyddion wedi'u cael ac wedi'u gosod ar ddrysau.	Cyfarwyddwr y Practis	1 wythnos
10-11	Dylai'r practis sicrhau y cynhelir archwiliadau rheolaidd (wythnosol) ar gyfer yr holl offer dadebru a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achosion brys a'u bod yn cael eu cofnodi, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Mae'n rhaid cael padiau diffibriliwr newydd yn lle'r rhai sydd wedi dod i ben. [Safonau Iechyd a Gofal 2.9; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.6; Cyngor Dadebru'r DU – canllawiau gofal deintyddol sylfaenol]	Rhestrau gwirio wedi'u llunio ac archwiliadau bob wythnos wedi cychwyn. Staff wedi cael eu hysbysu mewn cyfarfod. Padiau diffibriliwr newydd wedi'u gosod.	Cyfarwyddwr y Practis Cyfarwyddwr y Practis	1 wythnos
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
11	Mae'n rhaid i'r practis lunio dogfen/polisi sy'n	Polisi wedi'i lunio a'i drafod yn ystod cyfarfod â'r	Deintydd	1 diwrnod

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.</p> <p>Dylid diweddarau'r polisi chwythu'r chwiban i gynnwys manylion y trefniadau cysylltu â sefydliadau annibynnol ar gyfer y staff.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 7.1; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000]</p>	<p>staff.</p> <p>Polisi wedi'i ddiweddarau a'i drafod yn ystod cyfarfod â'r staff.</p>	Cyfarwyddwr y Practis	1 wythnos
12	<p>Dylai'r practis wneud trefniadau mwy ffurfiol i bob aelod o'r staff gael arfarniadau, gan gynnwys y prif ddeintydd, a dylid cadw cofnod o hyn.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 7.1; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat, Adran 14(2); Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6]</p>	<p>Cynlluniau i gynnal arfarniadau ysgrifenedig ffurfiol yn lle arfarniadau staff ar lafar wedi'u cyflwyno, ynghyd â chadw cofnodion. Staff wedi cael eu hysbysu o'r newid hwn yn ystod cyfarfod staff.</p> <p>Arfarniadau gan gymheiriaid i'w cyflwyno.</p>	Deintydd	Tri mis
12	<p>Dylai'r practis ffurfioli trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys cynnal archwiliadau ac adolygiadau gan gymheiriaid.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 3.1 a 3.3]</p>	Deintydd i gysylltu ag Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig am gymorth wrth geisio cael grwpiau i drafod adolygiadau.	Deintydd	Tri mis
13	<p>Dylid tynnu cofnodion damweiniau sydd wedi'u cwblhau i gyd o'r llyfr damweiniau er mwyn gwarchod cyfrinachedd gwybodaeth y staff a'r cleifion.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 3.5; Deddf Diogelu Data 1998]</p>	Y dogfennau dan sylw wedi eu tynnu oddi yno.	Cyfarwyddwr y Practis	Ar unwaith

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd yr Amgylchedd			
	-			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): Royston Richard Liddle

Teitl: Deintydd

Dyddiad: 11 Hydref 2015